


Crynodeb o Adroddiad Ymchwiliad:

## Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# AMGUEDDFA CAERDYDD-CRYNODEB

**Gorffennaf 2023**

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

CYNNWYS .... 2
RHAGAIR .... 3
CYLCH GORCHWYL .... 5
YMAGWEDD A GYMERWYD .... 6
PRIF GANFYDDIADAU .... 8
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL .... 8
- Y Sefyllfa Bresennol .... 9
  - Nifer yr Ymwelwyr .... 9
  - Llywodraethiant .... 10
  - Ymgysylltu â'r Gymuned .... 10
  - Cynhwysedd a Chynrychiolaeth .... 10
- Gweithio Tua'r Dyfodol .... 11
- Ffactorau Allweddol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy .... 11
  - Gweledigaeth a Strategaeth .... 11
  - Cynulleidfa .... 11
  - Ariannu .... 12
  - Codi Arian .... 12
  - Creu Incwm .... 13
  - Lleoliad .... 14
  - Staffio .... 15
  - Casgliadau .... 16
  - Dehongli ac Arddangosiadau .... 16
  - Storio .... 16
  - Modelau Gweithredu .... 16

ARGYMHELLION .... 17
Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant .... 20

# RHAGAIR

*Mae'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol yn ddigynsail; mae'r galw am wasanaethau ar ôl y pandemig, ynghyd ag ansicrwydd economaidd ac effaith yr argyfwng costau byw ar awdurdodau lleol yn golygu bod yn rhaid i Gyngor Caerdydd wneud y gorau o'i wariant cyllidebol yn fwy nag erioed. Mae'r Cyngor yn gwario tua £500,000 y flwyddyn ar Amgueddfa Caerdydd. Ar adegau fel hyn, mae'n bwysig cwestiynu effeithiolrwydd y gwariant hwn, i ddeall, a yw'n rhoi gwerth i breswylwyr a threthdalwyr, ac i archwilio a ellir gwneud mwy o'r dyraniad cyllidebol, fel bod anghenion yr amgueddfa yn cael eu cydbwyso â'r angen i ariannu gwasanaethau rheng flaen statudol.*

*Rwy'n ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i'r Ymchwiliad hwn, gan gynnwys rhanddeiliaid arbenigol, staff yr Amgueddfa, Ymddiriedolwyr Datblygu a gwirfoddolwyr; cawsom fudd o'ch arbenigedd a'ch profiad, gan ein helpu i ddeall yr hyn sydd ei angen i sicrhau dyfodol yr Amgueddfa.*

*Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r rhai sydd â diddordeb yn nyfodol yr Amgueddfa a roddodd dystiolaeth i'r Ymchwiliad; roedd eich barn am bwysigrwydd cael amgueddfa yng Nghaerdydd sy'n adrodd straeon ei holl gymunedau yn cadarnhau rôl bwysig amgueddfeydd da yn economi, diwylliant, addysg a hamdden dinas yn ogystal ag wrth hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.*

*Mae myfyrio ar daith Amgueddfa Caerdydd hyd yma yn hanfodol er mwyn deall y ffordd orau ymlaen; mae angen i ni fynd i'r afael â'r rhwystrau sydd wedi rhwystro datblygiad yr Amgueddfa. Nod ein hargymhellion yw cynorthwyo hyn drwy gryfhau cynllunio strategol ac ariannol i roi cyfeiriad, gan bwysleisio'r angen am leoliad newydd i ddarparu mannau arddangos a chynhyrchu incwm dros dro, gyda nifer dda o ymwelwyr, a sicrhau bod yr Amgueddfa yn cael ei staffio'n briodol.*

*Mae hefyd yn bwysig bod yr Amgueddfa yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob cymuned yng Nghaerdydd ac felly mae rhai o'n hargymhellion yn canolbwyntio ar hybu cynwysoldeb a chynrychioldeb a chynorthwyo cyfranogiad trwy waith allgymorth.*

*Mae gan Amgueddfa Caerdydd gefnogaeth enfawr, gan arbenigwyr amgueddfeydd, rhanddeiliaid lleol a'r cymunedau sydd wedi cymryd rhan; gallwn ddefnyddio hyn i adeiladu ar ei llwyddiant a sicrhau ei dyfodol.*

*Yn olaf, diolch yn fawr i'r Cynghorydd Henshaw, y Cynghorydd Shimmin a'r Cynghorydd Thompson am eu hymrwymiad i gwblhau'r Ymchwiliad hwn mewn dim o dro i alluogi ein canfyddiadau a'n hargymhellion i gael eu bwydo i'r Gweithgor.*



**Y Cynghorydd Peter Wong**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**

**Gorffennaf 2023**

# CYLCH GORCHWYL

1. Casglu barn rhanddeiliaid a dysgu o'u gwybodaeth a'u profiad o amgueddfeydd sy’n cael eu rhedeg gan y cyngor a/neu amgueddfeydd ymddiriedolaethau elusennol ynghylch:
    a. Modelau ariannu
    b. Creu incwm
    c. Modelau llywodraethu
    d. Ymgysylltu â’r gymuned
    e. Gwirfoddoli
    f. Cynhwysedd a chynrychiolaeth
    g. Gwaith partneriaeth
    h. Strwythurau staffio.

2. Archwilio gyda rhanddeiliaid y prif ofynion i sicrhau lleoliad a dyfodol cynaliadwy i Amgueddfa Caerdydd, gan gynnwys nodi materion tebygol sy'n gysylltiedig ag adleoli ac ailgyflenwi.

3. Deall gwariant y Cyngor ar Amgueddfa Caerdydd, incwm Amgueddfa Caerdydd ac a oes unrhyw amodau ynghlwm wrth ddarpariaeth cyllid blaenorol.

4. Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Ymchwiliad i wneud argymhellion ar sail tystiolaeth i'r Cabinet ynghylch y ffordd orau o sicrhau dyfodol cynaliadwy i Amgueddfa Caerdydd.

# YMAGWEDD A GYMERWYD

M1. Cynhaliodd yr Aelodau yr Ymchwiliad hwn yn ystod Mai 2023 - Gorffennaf 2023.

M2. Derbyniodd aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb:

- Y Cynghorydd Jennifer Burke - Aelod Cabinet - Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
- Neil Hanratty - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Donna Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir
- Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau
- Alison Tallontire – Rheolwr Dros Dro, Amgueddfa Caerdydd

M3. Ymwelodd yr aelodau ag Amgueddfa Caerdydd a chwrdd â staff a gwirfoddolwyr, gan wrando ar eu profiadau o weithio yn Amgueddfa Caerdydd a safbwyntiau ar ddyfodol yr Amgueddfa.

M4. Derbyniodd yr aelodau dystiolaeth hefyd gan y rhanddeiliaid allanol canlynol a fynychodd gyfarfodydd gyda'r grŵp gorchwyl:

- Ian Courtney, Gabriella Howell, Janey Howell, Gerallt Jones, Mark Munnery, Richard Tynen – Ymddiriedolwyr Datblygu
- Chris Delaney - Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru
- Dawn Gullis, Ashlea Harris, Zarah Kaleem, George Langton, Lisa Pickard, Sarah Thomas - Pobl yn Gyntaf Caerdydd
- Nicola Guy - Llywodraeth Cymru, Is-adran Diwylliant – Dirprwy Gyfarwyddwr
- Yr Athro Jane Henderson – tyst arbenigol
- Joshua Robertson - Cymdeithas yr Amgueddfa
- Dr Dave Wyatt - Caer Heritage

M5. Ysgrifennodd yr Aelodau at nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnig cyfle iddynt roi eu barn i'r Ymchwiliad. Cafwyd ymatebion gan:

- Andrew RT Davies AoS
- Heledd Fychan AoS

- Rhys ab Owen AoS
- Julie Morgan AoS
- Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
- Archifau Morgannwg
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

M6. Yn ogystal â'r uchod, ystyriodd yr Aelodau farn defnyddwyr trwy ymatebion arolwg ymwelwyr ac adborth defnyddwyr ysgolion, yn ogystal â'r ymatebion a dderbyniwyd i Ymgynghoriad Cynigion Cyllidebol y Cyngor.

M7. Er mwyn llywio'r Ymchwiliad, rhoddwyd adroddiadau briffio i'r Aelodau cyn pob cyfarfod, gan gynnwys *Canllaw Open Up*, a gynhyrchwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

M8. Defnyddiwyd y dystiolaeth i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad.

# PRIF GANFYDDIADAU

HF1. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy oherwydd costau gweithredu o'r Hen Lyfrgell, y diffyg lle ar gyfer gweithgareddau creu incwm, a'r pwysau cynyddol ar gyllidebau'r Cyngor.

HF2. Mae cyfle go iawn bellach i gynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Amgueddfa Caerdydd, gan gadw ei ffocws ar adrodd straeon pobl Caerdydd wrth hybu nifer yr ymwelwyr, allgymorth, cynwysoldeb a chynrychioldeb.

HF3. Rhaid i unrhyw leoliad newydd ddarparu sicrwydd deiliadaeth, cyfleoedd creu incwm, bodloni meini prawf Cynllun Achredu yr amgueddfa, cael eu cefnogi gan noddwyr presennol, a galluogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

HF4. Mae parch mawr i Amgueddfa Caerdydd, gyda llawer o randdeiliaid yn awyddus i ymgysylltu i helpu i lunio ei dyfodol. Byddai cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai ag arbenigedd amgueddfa a chymunedau lleol, mewn trafodaethau ar y ffordd ymlaen yn fuddiol.

HF5. Mae gan y Cyngor gyfle i ailosod ei berthynas ag Amgueddfa Caerdydd drwy godi ei phroffil, gwireddu ei photensial a chysylltu'r Amgueddfa â gwaith ehangach y Cyngor, gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau addysgol, cyfleoedd gwirfoddoli, gweithio mewn partneriaeth a gweithgarwch economaidd ehangach fel twristiaeth a digwyddiadau.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

KF1. Mae amgueddfeydd sy'n cynrychioli eu lle a'u cymunedau yn effeithiol o werth ac mae ganddynt le pwysig yn ecoleg y cynnig diwylliannol. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Ddiwylliannol sy'n cynnwys amgueddfeydd; mae angen i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ei Strategaeth Ddiwylliannol hefyd yn cynnwys amgueddfeydd.

## Y Sefyllfa Bresennol

KF2. Clywodd yr Ymchwiliad gan randdeiliaid - gweithwyr proffesiynol, ymwelwyr ac ysgolion - fod parch mawr tuag at Amgueddfa Caerdydd a’r gwaith y mae’n ei wneud; caiff hyn ei adlewyrchu yn y gwobrau cenedlaethol y mae wedi'u hennill.

KF3. Cyllideb flynyddol Cyngor Caerdydd ar gyfer Amgueddfa Caerdydd yw tua £513K y flwyddyn, sy'n cynnwys cyfraniad tuag at gostau rhedeg yr Hen Lyfrgell. Yn ogystal, mae gan y Cyngor gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw ar wahân ar gyfer yr Hen Lyfrgell; bydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y costau hyn wrth iddo brydlesu'r adeilad.

KF4. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi cadarnhau y bydd gan Amgueddfa Caerdydd brydles am hyd at 5 mlynedd; yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gostau rhedeg yr Hen Lyfrgell

KF5. Mae Amgueddfa Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau grantiau, drwy staff a'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu. Fodd bynnag, nid oes gan yr Amgueddfa y gallu i "ennill" incwm trwy gaffi/siop, fel y cafodd ei greu i ddechrau yng nghynlluniau Cam II yr Amgueddfa. Yn ogystal â hyn, mae'r diffyg sicrwydd ynghylch dyfodol yr Amgueddfa wedi gwneud codi arian hyd yn oed yn fwy anodd nag ydyw beth bynnag.

**Nifer yr ymwelwyr**

KF6. Mae nifer yr ymwelwyr ag Amgueddfa Caerdydd yn gostwng ym ôl mesuriad data Spotlight, ac mae hyn yn rhagflaenu pandemig Covid. Fodd bynnag, mae'r Amgueddfa yn gwneud llawer o waith allgymorth a datblygu gwerthfawr sydd heb gael ei gyfleu yn y ffigurau hyn, gan gynnwys arddangosfeydd dros dro a gynhelir oddi ar y safle.

KF7. Mae'r canlynol i gyd wedi gwaethygu'r dirywiad yn nifer yr ymwelwyr â’r Amgueddfa:

a. colli gofod arddangos dros dro
b. angen diweddaru arddangosfeydd
*c.* diffyg caffi
d. diffyg lle i gynnal digwyddiadau
e. gostyngiadau staffio
f. diffyg marchnata a hyrwyddo
g. diffyg arwyddion.

KF8. Er bod nifer yr ymwelwyr yn allweddol i lwyddiant, ni ddylid defnyddio nifer yr ymwelwyr yn unig i fesur gwerth yr Amgueddfa; dylai fod ymagwedd Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi, gan

ystyried y partneriaethau, yr ymddiriedolaeth, y gwaith allgymorth a datblygu a wneir a sut mae'r rhain wedi bod o fudd i bobl a chymunedau Caerdydd.

**Llywodraethiant**

KF9. Mae yna Ymddiriedolaeth Ddatblygu a sefydlwyd i godi arian ar gyfer Amgueddfa Caerdydd; nid oes ganddi unrhyw rôl yn rheolaeth neu weithrediadau'r Amgueddfa. Nid oes gan Amgueddfa Caerdydd fwrdd na grŵp cynghori; nid oes unrhyw ymddiriedolwyr eraill yn cynorthwyo'r Amgueddfa.

KF10. Mae'r Comisiwn Elusennau, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, a Chynllun Achredu Amgueddfeydd yn darparu arfer da defnyddiol o ran sut mae cyrff yn cael eu cyfansoddi a sut dylent weithredu er mwyn bod mor effeithiol a moesegol â phosibl.

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

KF11. Ystyrir Amgueddfa Caerdydd fel 'y lle i fynd' yng Nghymru am enghreifftiau o ymgysylltu cymunedol lleol, megis gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn, pobl â dementia, a ffoaduriaid.

KF12. Mae lle i Amgueddfa Caerdydd ymgysylltu mwy ag ystod ehangach o gymunedau lleol, a defnyddio ffyrdd arloesol o alluogi hyn e.e. gweithdai paentio a chrochenwaith wythnosol gan ddefnyddio eitemau o'u casgliad i ysbrydoli'r gweithdy.

KF13. Mae Amgueddfa Caerdydd yn elwa o'i chynllun gwirfoddoli moesegol; cyfarfu'r aelodau â rhai o'r gwirfoddolwyr hyn a chawsant eu taro gan eu hymrwymiad a'u gwybodaeth a'u gallu i gyfoethogi profiad yr ymwelydd. Mae aelodau o'r farn bod lle i adeiladu ar hyn.

**Cynhwysedd a Chynrychiolaeth**

KF14. Amgueddfa Caerdydd yw un o'r amgueddfeydd lleiaf trefedigaethol yn y DU gan fod gan bob arddangosfa ganiatâd a naratif penodol perchnogion.

KF15. Mae lle i'r Amgueddfa fynd ymhellach drwy gasglu eitemau cyfoes, gan gynnwys hanesion llafar, i adlewyrchu hanes a diwylliant enfawr, bywiog, amrywiol a chyffrous Caerdydd ac annog ymgysylltiad gan ystod ehangach o gymunedau yng Nghaerdydd, gyda gwrthrychau'n cael eu harddangos sy'n berthnasol i drigolion ledled Caerdydd. Mae *Canllaw Open Up* y cyfeirir ato yn yr Ymchwiliad hwn yn nodi lleisiau pwy sy'n cael eu cynrychioli a straeon pwy sy'n cael eu rhannu.

KF16. Mae'r arddangosfeydd yn yr Amgueddfa dros ddeng mlwydd oed; mae'n arfer da adnewyddu arddangosfeydd bob deng mlynedd. Mae cyfle i adolygu arddangosfeydd, eu dehongliad a'u harddangosiadau i hyrwyddo cydraddoldeb a chynwysoldeb, gan ddefnyddio dull curadu ar y cyd a chynnal curadu, fel y nodir yng *Nghanllaw Llwyddiant Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol – Arddangosiadau a Dehongliadau Amgueddfeydd* 2022.

KF17. Mae canfyddiadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a'r Canllaw Open Up y cyfeirir ato yn yr Ymchwiliad hwn yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn adlewyrchu nodweddion gwarchodedig cymunedau lleol.

## Gweithio tua'r Dyfodol

KF18. Byddai'r gwaith tuag at sicrhau dyfodol Amgueddfa Caerdydd yn elwa o ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o amgueddfeydd a'r rhai sydd â phrofiad o weithio gydag Amgueddfa Caerdydd, megis: Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, Amgueddfa Cymru, yr Athro Jane Henderson, Museum Detox, Caer Heritage, Pobl yn Gyntaf Caerdydd, a sefydliadau cymunedol perthnasol eraill yng Nghaerdydd.

## Ffactorau Allweddol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

### Gweledigaeth a Strategaeth

KF19. Byddai Amgueddfa Caerdydd yn elwa o weledigaeth a strategaeth glir sy'n adlewyrchu gwerthoedd Cryfach, Tecach, Gwyrddach y Weinyddiaeth yn ogystal â chanfyddiadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.

KF20. Byddai Amgueddfa Caerdydd yn elwa o gael rhai nodau blaenllaw i arwain partneriaethau, staffio a blaenoriaethau ariannu. Clywodd yr Ymchwiliad y gallai'r Amgueddfa ganolbwyntio ar fod yn amgueddfa ymgyrchu, 'Palas y Bobl', amgueddfa dyfodol cynaliadwy, adnodd i ysgolion, atyniad ymwelwyr y mae'n rhaid ei weld, neu gyfuniad o'r rhain a mwy.

KF21. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn rhan o'r trafodaethau a'r sgyrsiau am ffocws yr Amgueddfa yn y dyfodol a bod yr Amgueddfa yn parhau i adrodd straeon holl bobloedd Caerdydd.

### Cynulleidfa

KF22. Gall Amgueddfa Caerdydd fod ar gyfer cynulleidfaoedd lleol ac i ymwelwyr, cyn belled â bod digon o adnoddau i ddiwallu'r anghenion a'r disgwyliadau gwahanol hyn. Mae'n bwysig deall y gynulleidfa ar gyfer Amgueddfa Caerdydd, gan y bydd hyn yn helpu i adeiladu ac arallgyfeirio

sylfaen y gynulleidfa, cynorthwyo gyda dyrannu adnoddau a chynorthwyo gyda cheisiadau cyllido.

KF23. Mae'n bwysig marchnata a hyrwyddo Amgueddfa Caerdydd yn effeithiol, gwerthu ei stori lwyddiant a denu cynulleidfaoedd newydd.

**Ariannu**

KF24. Byddai Amgueddfa Caerdydd yn elwa o gael cynllun ariannu 3 blynedd, fel yr argymhellwyd gan *Adolygiad Llywodraeth Cymru o Amgueddfa Cymru* Dr. Thurley Mae'r Aelodau'n cydnabod bod gan Gyngor Caerdydd gylch ariannu blynyddol ond maen nhw'n credu y byddai modd cael cyllid dangosol ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3.

KF25. Mae'n hanfodol cynnal perthynas dda gyda noddwyr presennol Amgueddfa Caerdydd; clywodd yr Ymchwiliad fod Ymddiriedolwyr Datblygu yn cadw mewn cysylltiad â noddwyr fel eu bod mewn lle da i symud ymlaen unwaith y bydd lleoliad newydd yn cael ei ddarganfod.

KF26. Dywedodd rhai tystion fod Caerdydd, fel prifddinas Cymru, yn rhoi statws arbennig i Amgueddfa Caerdydd neu y dylid archwilio'r syniad hwn ymhellach.

**Codi arian**

KF27. Mae'r Ymchwiliad hwn wedi nodi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer codi arian, a nodir ym mhwyntiau 97-99, gan gynnwys:

a. Ymddiriedolaeth a Sefydliadau
    i. Yn benodol i amgueddfeydd a threftadaeth
    ii. Yn benodol i grwpiau penodol
b. Rhoi Unigol
    i. Rhoddwyr Mawr
    ii. Grwpiau cefnogwyr
        1. Aelodaeth/Ffrindiau
        2. Noddwyr
c. Rhoddion mewn Ewyllysiau/ Rhoi Etifeddiaeth
d. Blychau Rhoi a Rhoddion nad ydynt yn Arian Parod
e. Noddwyr Cyhoeddus
f. Loteri Cod Post – wedi'i drefnu'n ymddiriedolaethau rhanbarthol ar wahân.
g. Cronfa Cymunedau Tirlenwi (drwy Entrust)
h. CAA
i. Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol sy'n canolbwyntio ar gaffael, ailddefnyddio neu ailddatblygu adeiladau sydd o bwys yn hanesyddol neu'n bensaernïol

j. Cronfa Effaith y Celfyddydau NESTA.
k. Cyllido Torfol
l. Ymgyrch Rhoi Cyhoeddus
m. Rhoi Ar-lein
    i. Trwy docynnau – os cewch Gymorth Rhodd
    ii. Trwy blatfform rhoi ar-lein – Sefydliad Cymorth yr Elusennau, Just Giving, Donor Box
    iii. Annog rhoi yn rheolaidd
    iv. Cyllido torfol
n. Cymorth Rhodd

KF28. Clywodd yr Ymchwiliad y byddai rhai busnesau bach a chanolig Caerdydd yn croesawu cyfle i gyfrannu arian i'r Amgueddfa a chael sylw, yn enwedig os yw'r Amgueddfa mewn lleoliad amlwg yng nghanol y ddinas.

KF29. Ar hyn o bryd, nid oes digon o fannau rhoi heb arian parod yn Amgueddfa Caerdydd. Mae cyfle i gynyddu mannau rhoi heb arian parod mewn lleoliadau allweddol ar draws Amgueddfa Caerdydd.

**Creu Incwm**

KF30. Mae Creu Incwm yn allweddol i gynaliadwyedd Amgueddfa Caerdydd yn y dyfodol, i'w diogelu rhag yr amrywiadau a'r pwysau yng nghyllidebau'r Cyngor.

KF31. Mae'r Ymchwiliad hwn wedi nodi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer creu incwm, a nodir ym mhwyntiau 100-108, gan gynnwys:

a. Digwyddiadau – cerddoriaeth, gastronomeg, theatr, nosweithiau ffilm, calendr blynyddol o ddigwyddiadau
b. Caffi / Arlwyo - ymweliadau cymdeithasol, llogi preifat a chorfforaethol, priodasau,
c. Manwerthu – siop roddion, siop dymhorol dros dro
d. Ffilmio
e. Meddylfryd masnachol – a thargedau i staff
f. Llogi lleoliad – diwrnodau i ffwrdd corfforaethol
g. Ymweliadau Grŵp
h. Teithiau
i. Sesiynau Lluniau
j. Hawlfraint a thrwyddedu
k. Ymweliadau dros nos
l. Digwyddiadau codi arian gala / tei du

m. Loceri Dydd
n. Rhoddion – gwella'r rhain
o. Llwybrau Orielau Penodol
p. Creu incwm ar-lein
   i. Gwerthiannau manwerthu
   ii. Codi tâl mynediad ar gyfer digwyddiadau arbennig / cynigion premiwm ar-lein
   iii. Cyflwyno lefel / buddion aelodaeth rithwir
   iv. Datblygu cyrsiau rhithwir / gwersylloedd haf
   v. Codi arian 'gala' ar-lein
   vi. Datblygu model 'talu’r hyn â ddymunwch'
   vii. Mabwysiadu arteffactau
   viii. Rhoddion ymwelwyr
   ix. Nawdd masnachol
   x. Hysbysebu ar y we
   xi. Rhyngweithio Staff

KF32. Mae cyfle i gryfhau marchnata a hyrwyddo loceri dydd, cynyddu eu defnydd a chynhyrchu mwy o incwm.

KF33. Ni fyddai codi tâl am fynediad cyffredinol yn gweithio i Amgueddfa Caerdydd, o gofio bod y rhan fwyaf o amgueddfeydd yng Nghaerdydd yn fynediad am ddim a byddai ymwelwyr yn fwy tebygol o ddewis mynd i rywle arall yn hytrach na thalu.

**Lleoliad**

KF34. Mae angen meddwl yn galed am nodi lleoliad sy'n diogelu dyfodol Amgueddfa Caerdydd. Canfu'r Ymchwiliad fod yn rhaid i leoliad newydd fodloni'r meini prawf canlynol:

a. Meddu ar ddiogelwch deiliadaeth
b. Bodloni meini prawf Cynllun Achredu Amgueddfeydd, megis diogelwch safle, meysydd ar gyfer cyfleoedd dysgu, hygyrchedd, a safle lle mae nifer dda o ymwelwyr
c. Cael ei bennu gan nodau ac amcanion yr amgueddfa
d. Cyd-fynd â maint, cwmpas a nifer ymwelwyr lleoliad presennol Amgueddfa Caerdydd, er mwyn lleihau'r risg o adfachu gan noddwyr ac i ddarparu cyfleoedd i gynyddu llif incwm yr Amgueddfa.

KF35. Mae'n hanfodol bod lleoliad newydd yr Amgueddfa yn cynnwys mannau priodol i ddarparu gweithgareddau amgueddfa a chreu incwm:

a. Cynteddau/ mynedfa

b. Mannau Arddangosiadau Parhaol
c. Gofod Arddangos Dros Dro – yn galluogi'r amgueddfa i newid, bod yn gyfoes ac adlewyrchu themâu Croeso Cymru, a dathlu/coffáu pen-blwyddi. Mae hyn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a chynulleidfaoedd amrywiol.
d. Llety swyddfa – mae'n well os yw hyn gyda'r amgueddfa gyda'r rhan fwyaf o staff ar y safle.
e. Cyfleusterau Ymwelwyr – ar gyfer ymweliadau ysgol a grwpiau cymunedol eraill – lle gwlyb, ystafelloedd gweithgaredd, ystafelloedd trin ac ati.
f. Gofod Casglu – i brosesu deunydd newydd yn y casgliad
g. Manwerthu/ Caffi – mae hyn yn dibynnu ar leoliad a hyd arhosiad yr amgueddfa – gall ysgogi incwm a chynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r amgueddfa.
h. Lleoedd i'w llogi.

KF36. Mae'n hanfodol bod lleoliad newydd yn galluogi creu incwm i leihau'r ddibyniaeth ar gymhorthdal presennol y Cyngor ac felly hybu cynaliadwyedd yr Amgueddfa.

KF37. Mae llawer o adeiladau hanesyddol yn hynod o anodd i'w gwneud yn hygyrch ac i addasu, gyda thu mewn hanesyddol yn rhwystro ac yn cyfyngu'r opsiynau sydd ar gael wrth ddylunio cynllun amgueddfa.

*Adfachu cyllid presennol*

KF38. Mae barn noddwyr yn bwysig wrth benderfynu ar leoliad, o ran cyllid yn y dyfodol ac o ran adfachu posibl y cyllid presennol.

KF39. Clywodd yr Ymchwiliad fod cyllidwyr wedi rhybuddio bod risg sylweddol o adfachu cyllid presennol, yn dibynnu ar addasrwydd trefniadau newydd.

KF40. Byddai unrhyw adfachu'r cyllid presennol yn effeithio'n sylweddol ar geisiadau am gyllid yn y dyfodol nid yn unig ar gyfer Amgueddfa Caerdydd ond ar gyfer prosiectau'r cyngor ledled Caerdydd.

KF41. Gellir lliniaru'r risg o adfachu drwy sicrhau bod sicrwydd clir y gall yr Amgueddfa aros yn y lleoliad newydd a ffefrir am gyfnod sylweddol o amser a thrwy sicrhau bod proses o drafod gyda noddwyr.

**Staffio**

KF42. Mae gan Amgueddfa Caerdydd swyddi sydd heb eu llenwi ers nifer o flynyddoedd. Mae swyddi gwag yn rhwystro Amgueddfa Caerdydd rhag cyflawni ei photensial yn sylweddol; mae angen staffio'r Amgueddfa yn iawn i gyflawni ei gweledigaeth, ei nodau a'i hamcanion.

**Casgliadau**

KF43. Bwriad Strategaeth Diwylliant Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r angen am ddull strategol o ymdrin â chasgliadau digidol a sut y defnyddir y rhain i liniaru allgáu cymdeithasol a chynyddu mynediad i amgueddfeydd. Mae angen i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ei Strategaeth Ddiwylliant hefyd yn gwneud hyn.

**Dehongli ac Arddangosiadau**

KF44. Mae dehongli ac arddangos yn hanfodol i gynwysoldeb a chynrychioldeb ac enw da amgueddfa. Mae'n hanfodol bod Amgueddfa Caerdydd yn ystyried canfyddiadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a'r canllawiau arfer da ar gyfer dehongli ac arddangos, fel *Canllaw Llwyddiant CAA* a nodwyd yn yr adroddiad, i sicrhau bod ei dehongliad a'i harddangosiadau yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynwysoldeb, gan annog pob cymuned ac ymwelydd i ymgysylltu ag Amgueddfa Caerdydd.

**Storio**

KF45. Mae darpariaeth storio yn ffactor allweddol i'w gofio wrth ystyried y cynllun ar gyfer Amgueddfa Caerdydd yn y dyfodol. Hysbysodd Archifau Morgannwg yr Ymchwiliad nad oes ganddynt y gallu i gymryd eitemau mawr ac, wrth i'w gofyniad am le storio gynyddu, efallai y bydd yn rhaid iddynt ddod â threfniadau cyfredol i ben lle mae'r Amgueddfa yn talu i storio peth o'i chasgliad yn yr Archifau. Noda'r aelodau, os oes angen lle storio pellach, y byddai'r Amgueddfa yn edrych ar opsiynau eraill, gan gynnwys cyfleoedd o fewn ystâd y Cyngor, sydd â'r amodau amgylcheddol a diogelwch cywir.

KF46. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adolygiad Casgliadau o le Storio ledled Cymru, gan archwilio opsiynau ynghylch opsiynau storio a rennir. Mae Amgueddfa Caerdydd wedi cael ei dewis i fod yn rhan o gam nesaf y gwaith hwn.

**Modelau Gweithredu**

KF47. Canfu'r Ymchwiliad hwn nifer o fodelau gweithredu a ddefnyddir gan amgueddfeydd yng Nghymru a Lloegr; fodd bynnag, ar gyfer Amgueddfa Caerdydd yr unig ddau sy'n bosibl yw naill ai aros fel amgueddfa awdurdod lleol neu drosglwyddo i ymddiriedolaeth elusennol.

KF48. Does dim awydd i Amgueddfa Caerdydd roi'r gorau i fod yn amgueddfa sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol, gan yr ystyrir bod anfanteision gwneud hyn yn gorbwyso'r manteision yn sylweddol.

# ARGYMHELLION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad hwn, mae Pwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

*R1.* *Cyn penderfynu ar leoliad newydd, sicrhewch fod gan Amgueddfa Caerdydd weledigaeth glir sy'n adlewyrchu gwerthoedd Cryfach, Tecach, Gwyrddach y Weinyddiaeth yn ogystal â chanfyddiadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, a bod hyn yn helpu i lywio dewis lleoliad.*

*R2.* *Crëwch strategaeth gyflawni 5-10 mlynedd, wedi'i llywio gan ymgysylltu â rhanddeiliaid, i weithredu'r weledigaeth ar gyfer Amgueddfa Caerdydd, i'w hadolygu bob 3 blynedd.*

*R3.* *Gwnewch yn siŵr bod y weledigaeth a'r strategaeth yn nodi'n glir yr angen i alluogi pobl i adrodd eu straeon yn hytrach na chael eu hadrodd ar eu rhan, gan alluogi sefydliadau cymunedol i gymryd rhan mewn curadu ar y cyd a chynnal curadu.*

*R4.* *Datblygwch gynllun ariannu dangosol 3 blynedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth, gan ymgorffori grantiau, codi arian, creu incwm yn ogystal â chyllid gan y Cyngor.*

*R5.* *Archwiliwch botensial busnesau bach a chanolig yng Nghaerdydd sy'n cyfrannu arian i'r Amgueddfa.*

*R6.* *Gwnewch yn siŵr bod y Gweithgor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd ag arbenigedd amgueddfa, sefydliadau cymunedol sy'n gweithio gydag Amgueddfa Caerdydd a sefydliadau cymunedol perthnasol eraill yng Nghaerdydd.*

*R7.* *Gwnewch yn siŵr bod y Gweithgor yn ystyried canfyddiadau'r Ymchwiliad hwn o ran lleoliad, yn fwyaf nodedig y rhai a nodir yng Nghanfyddiadau Allweddol 34 – 37 yn gynhwysol.*

*R8.* *Gwnewch yn siŵr bod y lleoliad newydd a ddewisir yn galluogi'r Amgueddfa i greu incwm, heb leihau'r defnydd effeithiol o ofod arddangos.*

*R9. Gwnewch yn siŵr bod y lleoliad newydd a ddewisir yn galluogi'r Amgueddfa i gael man arddangos dros dro hyfyw, yn ogystal â'r prif ofod arddangos, i hwyluso digwyddiadau arbennig ac annog ymweliadau mynych.*

*R10. Rhowch ymrwymiad clir i anrhydeddu ôl troed cytûn y lleoliad newydd ar gyfer Amgueddfa Caerdydd.*

*R11. Cryfhewch farchnata a hyrwyddo'r Amgueddfa yn gyffredinol, gan ddefnyddio'r holl sianeli cyfathrebu sydd ar gael gan y Cyngor.*

*R12. Adolygwch gasgliadau, dehongliad ac arddangosfeydd Amgueddfa Caerdydd drwy lens canfyddiadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a datrefedigaethu.*

*R13. Sicrhewch fod polisi casgliadau Amgueddfa Caerdydd yn annog hanesion llafar yn gryf.*

*R14. Sicrhewch fod yr Amgueddfa'n cael ei staffio i gyflawni ei gweledigaeth, ei nodau a'i hamcanion mewn modd cynaliadwy yn llwyddiannus.*

*R15. Adfywiwch waith dysgu ac allgymorth Amgueddfa Caerdydd trwy Ysgolion a Hybiau a lleoliadau cymunedol eraill, gan gynnwys arddangosfeydd dros dro, i annog cyfranogiad a hybu mynediad a chynhwysiant.*

*R16. Sefydlwch Grŵp Cynghori ar gyfer Amgueddfa Caerdydd, sy'n cynnwys unigolion sydd â'r set orau o sgiliau ac arbenigedd amgueddfeydd, gan alluogi'r Amgueddfa i elwa o hyn wrth gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth.*

*R17. Wrth sefydlu'r Grŵp Cynghori, cyfeiriwch at y Comisiwn Elusennau ac arferion da llywodraethu amgueddfeydd ynghylch sut mae cyrff yn cael eu cyfansoddi a sut dylent weithredu i fod fwyaf effeithiol.*

*R18. Defnyddiwch ewyllys da rhanddeiliaid a chymunedau lleol gyda rhaglen ddigwyddiadau barhaus i alluogi a meithrin perthnasoedd.*

*R19. Archwilio'r potensial ar gyfer cyllid allanol i dalu am y gost o reoli ac ehangu'r rhaglen wirfoddoli.*

# Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

Y Cynghorydd Peter Wong (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rodney Berman

Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless

Y Cynghorydd Jane Henshaw

Y Cynghorydd Peter Jenkins

Y Cynghorydd Jackie Jones

Y Cynghorydd Lloyd Jones

Y Cynghorydd Jon Shimmin

Y Cynghorydd Leo Thomson

**Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW**
**Ffôn: 029 2087 3506    E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk**
**h. 2023 Cyngor Sir Caerdydd**